(2) Ar gyfer llygryddion Grŵp A, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol-

(a) ddynodi i ba raddau y mae gormodiannau un uwch na-

(i) unrhyw werth terfyn, neu

(ii) trothwyon rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid neu sylffwr deuocsid,

dros y cyfnodau cyfartaleddu perthnasol sydd wedi eu nodi yn Rhan 1 o Atodlen 1 a Rhan 1 o Atodlen 3 yn y drefn honno; a

(b) darparu asesiad byr o'r digwyddiadau hyn a'u heffaith ar iechyd.

(3) Ar gyfer llygryddion Grŵp B, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol-

(a) ddangos unrhyw achlysur lle bu gormodiant un uwch nag unrhyw werth targed; a

(b) mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad o'r fath, darparu o leiaf yr wybodaeth ganlynol-

(i) yr ardaloedd ym mhob parth lle bu gormodiant yn uwch na'r gwerth targed,

(ii) achos y digwyddiad a phrif ffynonellau yr allyriannau a ddynodwyd yn unol â rheoliad 9(2)(a),

(iii) asesiad byr o effaith y digwyddiad ar gydymffurfedd cyffredinol gyda'r gwerth targed yn y parth dan sylw,

(iv) y mesurau sy'n cael eu cymryd i wrthweithio'r gormodiant mewn crynodiad yn unol â rheoliad 9(2)(b), a

(v) y rhagolygon ar gyfer cyrraedd y gwerth targed yn yr ardal yr effeithiwyd arni.

(4) Ar gyfer osôn, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol-

(a) ddangos unrhyw achlysur lle mae'r crynodiadau wedi bod yn uwch na-

(i) yr amcanion hirdymor ar gyfer diogelu iechyd pobl,

(ii) y trothwy gwybodaeth, neu

(iii) y trothwy rhybuddio;

a

(6) Without prejudice to the generality of the obligation imposed by this regulation to provide information to the public, in cases where the alert threshold for ozone is exceeded or is predicted to be exceeded, the National Assembly must ensure that timely information is provided to all relevant health-care bodies.

**Information on breach of air quality standards**

**25.**-(1) The National Assembly must provide the information required by paragraphs (2) to (5) in respect of each of the pollutants to which those paragraphs relate.

(2) For Group A pollutants, the National Assembly must-

(a) indicate the extent to which-

(i) any limit value has, or

(ii) the alert thresholds for nitrogen dioxide or sulphur dioxide have,

been exceeded over the relevant averaging periods set out in Part 1 of Schedule 1 and Part 1 of Schedule 3 respectively; and

(b) provide a short assessment of these occurrences and their effects on health.

(3) For Group B pollutants, the National Assembly must-

(a) indicate any occasion during which any target value has been exceeded; and

(b) in relation to any such occurrences, provide at least the following information-

(i) the areas within each zone in which the target value was exceeded,

(ii) the cause of the occurrence and the predominant sources of emissions identified in accordance with regulation 9(2)(a),

(iii) a short assessment of the effect of the occurrence on overall compliance with the target value in the zone concerned,

(iv) the measures being taken counteract the excess concentration in accordance with regulation 9(2)(b), and

(v) the prospects for attainment of the target value in the area affected.

(4) For ozone, the National Assembly must-

(a) indicate any occasion during which concentrations have exceeded-

(i) the long-term objectives for the protection of human health,

(ii) the information threshold, or

(iii) the alert threshold;

and

(b) darparu asesiad byr o bob digwyddiad, gan gynnwys ei faint a'i effaith ar iechyd.

(5) Mae'n rhaid i'r wybodaeth y mae paragraffau (2) a (4) yn ei gwneud hi'n ofynnol eu darparu, gael ei diweddaru yn unol â'r amserlen a bennwyd ar gyfer y llygryddion hynny gan reoliad 23(2) a (3).

**Adroddiad blynyddol osôn**

**26**.-(1) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gynhyrchu adroddiad blynyddol mewn perthynas ag osôn yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys o leiaf yr wybodaeth ganlynol-

(a) ar gyfer iechyd pobl, dynodiad am bob achlysur pan bu gormodiant yn uwch na-

(i) y gwerth targed,

(ii) yr amcan hirdymor, neu

(iii) y trothwy rhybuddio;

(b) ar gyfer llystyfiant, dynodiad am bob achlysur pan bu gormodiant uwchlaw-

(i) y gwerth targed, neu

(ii) yr amcan hirdymor; ac

(c) mewn perthynas â'r ddau is-baragraff (a) a (b), asesiad byr o effeithiau pob digwyddiad o'r fath.

(3) Caiff yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(b) gynnwys, lle bo'n briodol,-

(a) gwybodaeth bellach ac asesiadau ynglyn â diogelu fforestydd, yn unol â Rhan 1 o Atodlen 12; a

(b) gwybodaeth am rhagsylweddion osôn.

**Gwybodaeth am gynlluniau gweithredu a gwella**

**27**.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol drefnu bod y canlynol ar gael, a darparu gwybodaeth am weithredu, pob cynllun gweithredu a chynllun gwella.

(2) Pan fo rheoliad 11(4) yn gymwys, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod canlyniadau'r archwiliadau a wnaed yng nghyd-destun ei ystyriaeth o dan y rheoliad hwnnw ar gael, p'un bynnag os yw wedi paratoi cynllun gweithredu o dan rheoliad 11(1)(a) neu beidio.

**Cyfranogiad y cyhoedd mewn cynlluniau gwella**

**28**.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â'r cyhoedd lle y mae'n bwriadu paratoi, addasu neu adolygu cynllun gwella.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, rhaid i'r

(b) provide a short assessment of each occurrence, including its extent and its effects on health.

(5) The information required to be made available in paragraphs (2) and (4) must be updated in accordance with the timescales specified for those pollutants by regulation 23(2) and (3).

**Ozone annual report**

**26**.-(1) The National Assembly must produce an annual report in relation to ozone in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) The annual report must at least contain the following information-

(a) for human health, an indication of all occasions during which-

(i) the target value,

(ii) the long-term objective, or

(iii) the alert threshold,

has been exceeded;

(b) for vegetation, an indication of all occasions during which-

(i) the target value, or

(ii) the long-term objective,

has been exceeded; and

(c) in relation to both sub-paragraphs (a) and (b), a short assessment of the effects of each such occurrence.

(3) The information referred to in paragraph (2)(b) may include, where appropriate,-

(a) further information and assessments on forest protection, in accordance with Part 1 of Schedule 12; and

(b) information on ozone precursor substances.

**Information on action and improvement plans**

**27**.-(1) The National Assembly must make available, and provide information on the implementation of, each action plan and improvement plan.

(2) Where regulation 11(4) applies, the National Assembly must make available the results of the investigations undertaken in the context of its considerations under that regulation, irrespective of whether it has prepared an action plan under regulation 11(1)(a).

**Public participation in improvement plans**

**28**.-(1) The National Assembly must consult the public where it proposes to prepare, modify or review an improvement plan.

(2) Where paragraph (1) applies, the National

Cynulliad Cenedlaethol-

(a) roi gwybod i'r cyhoedd am ei gynnig ac unrhyw wybodaeth gefndir berthnasol; a

(b) pennu'r dulliau y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y broses ymgynghori, gan gynnwys cyfeiriad ar gyfer ymatebion ac amserlen rhesymol ar gyfer yr ymgynghori.

(3) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl ymgynghori, yn dod i benderfyniad ynglyn â'i gynnig, rhaid iddo roi gwybod i'r cyhoedd a darparu gwybodaeth am y rhesymau a'r ystyriaeth y mae wedi seilio ei benderfyniad.

Assembly must-

(a) inform the public as to its proposal and any relevant background information; and

(b) specify the means by which the public can participate in the consultation process, including an address for responses and a reasonable timescale for the consultation.

(3) Where, following a consultation, the National Assembly takes a decision in relation to its proposal, it must inform the public and provide information as to the reasons and considerations on which its decision is based.

## RHAN 5

Darpariaethau terfynol ac amrywiol

**Casglu gwybodaeth etc.**

**29**.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod yr wybodaeth a ddynodir yn Rhan 1 o Atodlen 12 wedi ei chael a'i chasglu.

(2) Mae'r meini prawf yn Rhan 2 o Atodlen 12 ar gyfer casglu data a chyfrifo paramedrau ystadegol yn gymwys mewn perthynas ag osôn.

**Dirymiadau**

Mae'r Rheoliadau a nodir yn Atodlen 13 yn cael eu dirymu yn unol â'r Atodlen honno.

## PART 5

Final and miscellaneous provisions

**Collation of information etc.**

**29**.-(1) The National Assembly must ensure that the information specified in Part 1 of Schedule 12 is obtained and collated.

(2) The criteria for aggregating data and calculating statistical parameters specified in Part 2 of Schedule 12 applies as respects ozone.

**Revocations**

**30**. The Regulations set out in Schedule 13 are revoked in accordance with that Schedule.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

6 Mawrth 2007

6 March 2007

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 c.38

(**1**) 1998 c.38.

ATODLEN 1

Rheoliad 6

Safonau ansawdd aer

## RHAN 1

Gwerthoedd terfyn ar gyfer llygryddion Grŵp A

**Bensen**

| | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Dyddiad cyflawni* |
|---|---|---|---|
| Gwerth terfyn ar gyfer diogelu iechyd pobl | Blwyddyn galendr | 5 µg/m³ | 1 Ionawr 2010 |

**Carbon monocsid**

At ddibenion y tabl hwn, bydd crynodiad y cymedr 8 awr dyddiol uchaf yn cael ei ddewis drwy archwilio cyfartaleddau cyfredol 8 awr, wedi'u cyfrifo o ddata yn ôl yr awr ac wedi'u diweddaru bob awr. Rhaid priodoli pob cyfartaledd 8 awr sydd wedi'i gyfrifo felly i'r diwrnod y mae'n dod i ben arno, hynny yw, y cyfnod cyfrifo cyntaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod o 17:00 ar y diwrnod cynt i 01:00 ar y diwrnod hwnnw; y cyfnod cyfrifo olaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod o 16:00 i 24:00 ar y diwrnod hwnnw.

| | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|---|
| Gwerth terfyn ar gyfer diogelu iechyd pobl | Y cymedr 8 awr dyddiol uchaf | 10 mg/m³ |

**Plwm**

| | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|---|
| Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl | Blwyddyn galendr | 0.5 µg/m³ |

**Nitrogen deuocsid (NO2) ac ocsidau o nitrogen (NOx)**

| | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Dyddiad cyflawni* |
|---|---|---|---|
| Gwerth terfyn bob awr ar gyfer diogelu iechyd dynol | 1 awr | 200 µg/m³ NO2, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 18 gwaith fesul blwyddyn galendr | 1 Ionawr 2010 |
| Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl | Blwyddyn galendr | 40 µg/m³ NO2 | 1 Ionawr 2010 |
| Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu llystyfiant | Blwyddyn galendr | 30 µg/m³ NOx | |

**$PM_{10}$**

| | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|---|
| Gwerth terfyn 24 awr ar gyfer diogelu iechyd pobl | 24 awr | 50 µg/m³ $PM_{10}$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 35 gwaith fesul blwyddyn galendr |
| Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd dynol | Blwyddyn galendr | 40 µg/m³ $PM_{10}$ |

**Sylffwr deuocsid**

| | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|---|
| Gwerth terfyn bob awr ar gyfer diogelu iechyd pobl | 1 awr | 350 µg/m³, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 24 gwaith fesul blwyddyn galendr |
| Gwerth terfyn dyddiol ar gyfer diogelu iechyd pobl | 24 awr | 125 µg/m³, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 3 gwaith fesul blwyddyn galendr |
| Gwerth terfyn ar gyfer diogelu ecosystemau | Blwyddyn galendr a gaeaf (1 Hydref i 31 Mawrth) | 20 µg/m³ |

## RHAN 2

Ffiniau goddefiant ar gyfer bensen a nitrogen deuocsid

| *Dechrau'r cyfnod pan fydd y ffin yn gymwys* | *Diwedd y cyfnod pan fydd y ffin yn gymwys* | *Bensen* | *Nitrogen deuocsid (gwerth terfyn bob awr ar gyfer diogelu iechyd pobl* | *Nitrogen deuocsid pobl) (gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl)* |
|---|---|---|---|---|
| Pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym | 31 Rhagfyr 2007 | 3 µg/m³ | 30 µg/m³ | 6 µg/m³ |
| 1 Ionawr 2008 | 31 Rhagfyr 2008 | 2 µg/m³ | 20 µg/m³ | 4 µg/m³ |
| 1 Ionawr 2009 | 31 Rhagfyr 2009 | 1 µg/m³ | 10 µg/m³ | 2 µg/m³ |

## RHAN 3

Gwerthoedd targed ar gyfer llygryddion Grwp B

**1**. Mae'r gwerthoedd targed yn y tabl isod ym mhob achos yn gysylltiedig â chyfanswm cynnwys y llygrydd perthnasol yn y ffracsiwn $PM_{10}$ a gafwyd ar gyfartaledd dros un flwyddyn galendr.

**2**. Y dyddiad cyrraedd ar gyfer pob un o'r gwerthoedd targed hyn yw 31 Rhagfyr 2012.

| Llygrydd | Gwerth targed |
|---|---|
| Arsenig | 6 ng/m³ |
| Benso(a)pyren | 1 ng/m³ |
| Cadmiwm | 5 ng/m³ |
| Nicel | 20 ng/m³ |

## RHAN 4

Gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor ar gyfer osôn

**3**. Yn y Rhan hon-

(a) rhaid mynegi pob gwerth mewn µg/m³;

(b) rhaid safoni'r cyfaint yn ôl yr amodau tymheredd a phwysedd canlynol: 293K a 101.3kPa;

(c) rhaid nodi'r amser mewn Amser Ewropeaidd Canolog;

(ch) ystyr "AOT40" (wedi'i fynegi mewn (µg/m³) awr) yw swm y gwahaniaeth rhwng crynodiadau yn ôl yr awr sy'n uwch na 80 µg/m³ (sy'n hafal i 40 rhan fesul biliwn) a 80 µg/m³ dros gyfnod penodol trwy ddefnyddio'r gwerthoedd 1 awr yn unig a'r rheini wedi'u mesur rhwng 8:00 ac 20:00 Amser Ewropeaidd Canolog bob dydd; a

(d) er mwyn bod yn ddilys, rhaid i'r data blynyddol ar ormodiannau a ddefnyddir i wirio cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor, fodloni'r meini prawf a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 12.

**Gwerthoedd targed**

| | *Paramedr* | *Gwerth targed ar gyfer 2010(1)* |
|---|---|---|
| Gwerth targed ar gyfer diogelu iechyd pobl | Y cymedr 8 awr dyddiol uchaf[(2)] | 120 µg/m³, sef sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef ar fwy na 25 diwrnod fesul blwyddyn galendr a hynny wedi'i gyfartaleddu dros dair blynedd[(3)] |
| Gwerth targed ar gyfer diogelu llystyfiant | AOT40, wedi'i gyfrifo o werthoedd 1 awr o Fai i Orffennaf | 18,000 µg/m³.h wedi'i gyfartaleddu dros bum mlynedd[(3)] |

[(1)] Asesir cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed yn ôl y gwerth hwn; hynny yw, 2010 fydd y flwyddyn gyntaf y defnyddir y data ar ei chyfer i gyfrifo cydymffurfedd dros dair neu bum mlynedd, fel y bo'n briodol.

[(2)] Rhaid dethol crynodiad y cymedr 8 awr dyddiol uchaf drwy archwilio cyfartaleddau cyfredol 8 awr, wedi'u cyfrifo o ddata yn ôl yr awr ac wedi'u diweddaru bob awr. Rhaid priodoli pob cyfartaledd 8 awr sydd wedi'i gyfrifo felly i'r diwrnod y mae'n dod i ben arno; hynny yw, y cyfnod cyfrifo cyntaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod o 17:00 ar y diwrnod cynt i 01:00 ar y diwrnod hwnnw; y cyfnod cyfrifo olaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod o 16:00 i 24:00 ar y diwrnod hwnnw.

[3)] Os nad oes modd penderfynu'r cyfartaleddau tair-blynedd neu'r cyfartaleddau pum-mlynedd ar sail set gyflawn ac olynol o ddata blynyddol, rhaid bod isafswm y data blynyddol sy'n ofynnol ar gyfer gwirio cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed fel a ganlyn: (i) ar gyfer y gwerth targed ar gyfer diogelu iechyd pobl, data dilys ar gyfer blwyddyn, a (ii) ar gyfer y gwerth targed ar gyfer diogelu llystyfiant, data dilys ar gyfer tair blynedd.

**Amcanion hirdymor**

| | *Paramedr* | *Yr amcan hirdymor* |
|---|---|---|
| Amcan hirdymor ar gyfer diogelu iechyd pobl | Y cymedr 8 awr dyddiol uchaf o fewn blwyddyn galendr | 120 µg/m³ |
| Amcan hirdymor ar gyfer diogelu llystyfiant | AOT40, wedi'i gyfrifo o werthoedd 1-awr o Fai i Orffennaf | 6,000 µg/m³.h |

## SCHEDULE 1

Regulation 6

Air quality standards

### PART 1

Limit values for Group A pollutants

**Benzene**

| | *Averaging period* | *Limit value* | *Attainment date* |
|---|---|---|---|
| Limit value for the protection of human health | Calendar year | 5 µg/m³ | 1 January 2010 |

**Carbon monoxide**

For the purposes of this table, the maximum daily 8-hour mean concentration will be selected by examining 8-hour running averages, calculated from hourly data and updated each hour. Each 8-hour average so calculated will be assigned to the day on which it ends, i.e. the first calculation period for any one day will be the period from 17:00 on the previous day to 01:00 on that day; the last calculation period for any one day will be the period from 16:00 to 24:00 on that day.

| | *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|---|
| Limit value for the protection of human health | Maximum daily 8-hour mean | 10 mg/m³ |

**Lead**

| | *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|---|
| Annual limit value for the protection of human health | Calendar year | 0.5 µg/m³ |

**Nitrogen dioxide (NO2) and oxides of nitrogen (NOx)**

| | *Averaging period* | *Limit value* | *Attainment date* |
|---|---|---|---|
| Hourly limit value for the protection of human health | 1 hour | 200 µg/m³ NO2, not to be exceeded more than 18 times a calendar year | 1 January 2010 |
| Annual limit value for the protection of human health | Calendar year | 40 µg/m³ NO2 | 1 January 2010 |
| Annual limit value for the protection of vegetation | Calendar year | 30 µg/m³ NOx | |

**$PM_{10}$**

| | *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|---|
| 24-hour limit value for the protection of human health | 24 hours more than 35 times a calendar year | 50 µg/m³ $PM_{10}$, not to be exceeded |
| Annual limit value for the protection of human health | Calendar year | 40 µg/m³ $PM_{10}$ |

**Sulphur dioxide**

| | *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|---|
| Hourly limit value for the protection of human health | 1 hour | 350 µg/m³, not to be exceeded more than 24 times a calendar year |
| Daily limit value for the protection of human health | 24 hours | 125 µg/m³, not to be exceeded more than 3 times a calendar year |
| Limit value for the protection of ecosystems | Calendar year and winter (1 October to 31 March) | 20 µg/m³ |

## PART 2

Margins of tolerance for benzene and nitrogen dioxide

| *Start of period during which the margin applies* | *End of period during which the margin applies* | *Benzene* | *Nitrogen dioxide (hourly limit value for the protection of human health)* | *Nitrogen dioxide (annual limit value for the protection of human health)* |
|---|---|---|---|---|
| Coming into force of these Regulations | 31 December 2007 | 3 µg/m³ | 30 µg/m³ | 6 µg/m³ |
| 1 January 2008 | 31 December 2008 | 2 µg/m³ | 20 µg/m³ | 4 µg/m³ |
| 1 January 2009 | 31 December 2009 | 1 µg/m³ | 10 µg/m³ | 2 µg/m³ |

## PART 3

Target values for Group B pollutants

**1**. The target values in the table below in each case relate to the total content of the relevant pollutant in the $PM_{10}$ fraction averaged over one calendar year.

**2**. The attainment date for each of these target values is 31 December 2012.

| Pollutant | Target value |
|---|---|
| Arsenic | 6 ng/m³ |
| Benzo(a)pyrene | 1 ng/m³ |
| Cadmium | 5 ng/m³ |
| Nickel | 20 ng/m³ |

## PART 4

Target values and long-term objectives for ozone

3. In this Part-

(a) all values must be expressed in µg/m³;

(b) the volume must be standardised at the following conditions of temperature and pressure: 293K and 101.3kPa;

(c) the time must be specified in Central European Time;

(d) "AOT40" (expressed in (µg/m³) hours) means the sum of the difference between hourly concentrations greater than 80 µg/m³ (which equals 40 parts per billion) and 80 µg/m³ over a given period using only the 1 hour values measured between 8:00 and 20:00 Central European Time each day; and

(e) in order to be valid, the annual data on exceedances used to check compliance with the target values and long-term objectives below must meet the criteria set out in Part 2 of Schedule 12.

**Target values**

| | *Parameter* | *Target value for 2010*[1] |
|---|---|---|
| Target value for the protection of human health | Maximum daily 8-hour mean[2] | 120 µg/m³ not to be exceeded on more than 25 days per calendar year averaged over three years[3] |
| Target value for the protection of vegetation | AOT 40, calculated from 1-hour values from May to July | 18,000 µg/m³.h averaged over five years[3] |

[1] Compliance with target values will be assessed as of this value; that is, 2010 will be the first year the data for which is used in calculating compliance over three or five years, as appropriate.

[2] The maximum daily 8-hour mean concentration will be selected by examining 8-hour running averages, calculated from hourly data and updated each hour. Each 8-hour average so calculated will be assigned to the day on which it ends; that is, the first calculation period for any one day will be the period from 17:00 on the previous day to 01:00 on that day; the last calculation period for any one day will be the period from 16:00 to 24:00 on the day.

[3] If the three or five-year averages cannot be determined on the basis of a full and consecutive set of annual data, the minimum annual data required for checking compliance with the target values will be as follows: (i) for the target value for the protection of human health, valid data for one year, and (ii) for the target value for the protection of vegetation, valid data for three years.

**Long-term objectives**

| | *Parameter* | *Long-term objective* |
|---|---|---|
| Long-term objective for the protection of human health | Maximum daily 8-hour mean within a calendar year | 120 µg/m³ |
| Long-term objective for the protection of vegetation | AOT40, calculated from 1-hour values from May to July | 6,000 µg/m³.h |

# ATODLEN 2

Rheoliad 8(4)

Gwybodaeth i'w chynnwys mewn Cynllun Gwella

**1**. Lleoliad gormodiant o lygredd-

(a) rhanbarth;

(b) dinas (map); ac

(c) gorsaf mesur (map, cyfesurynnau daearyddol).

**2**. Gwybodaeth gyffredinol-

(a) math o barth (dinas, ardal ddiwydiannol neu wledig);

(b) amcangyfrif o'r ardal lygredig ($km^2$) a'r boblogaeth a fu'n agored i'r llygredd;

(c) data defnyddiol am yr hinsawdd;

(ch) data perthnasol am dopograffi; a

(d) gwybodaeth ddigonol ynglyn â'r math o dargedau y bo'n ofynnol eu diogelu yn y parth.

**3**. Awdurdodau cyfrifol (enwau a chyfeiriadau personau sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu cynlluniau gwella).

**4**. Natur y llygredd ac asesiad ohono-

(a) crynodiadau y gwelwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol (cyn gweithredu'r mesurau gwella);

(b) crynodiadau a fesurwyd ers dechrau'r prosiect; ac

(c) dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad.

**5**. Tarddiad y llygredd-

(a) rhestr o brif ffynonellau'r gollyngiad sy'n gyfrifol am y llygredd (map);

(b) cyfanswm yr allyriannau o'r ffynonellau hyn (tunelli/blwyddyn); ac

(c) gwybodaeth am lygredd a fewnforiwyd o ranbarthau eraill.

**6**. Dadansoddi'r sefyllfa-

(a) manylion y ffactorau hynny sy'n gyfrifol am y gormodiant (cludiant, gan gynnwys cludiant trawsffiniol, ffurfiant); a

(b) manylion y mesurau posibl i wella ansawdd aer.

**7**. Manylion y mesurau hynny neu brosiectau gwella a oedd yn bodoli cyn 21 Tachwedd 1996-

(a) mesurau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol; a

(b) effeithiau'r mesurau a welwyd.

**8**. Manylion y mesurau neu'r prosiectau hynny a fabwysiadwyd gyda'r bwriad o ostwng llygredd ar ôl 21 Tachwedd 1996-

(a) rhestr a disgrifiad o'r mesurau a nodwyd yn y prosiect;

(b) yr amserlen ar gyfer eu gweithredu; ac

(c) amcangyfrif o'r cynllun arfaethedig i wella ansawdd aer a'r amser disgwyliedig sydd ei angen i gyflawni'r amcanion hyn.

**9**. Manylion y mesurau neu brosiectau arfaethedig neu sy'n cael eu hymchwilio ar gyfer yr hirdymor.

**10**. Rhestr o'r cyhoeddiadau, dogfennau a gwaith a ddefnyddir i ychwanegu at yr wybodaeth sy'n ofynnol gan yr Atodlen hon.

## SCHEDULE 2

Regulation 8(4)

Information to be included in an Improvement Plan

**1**. Localisation of excess pollution-

(a) region;

(b) city (map); and

(c) measuring station (map, geographical coordinates).

**2**. General information-

(a) type of zone (city, industrial or rural area);

(b) estimate of the polluted area ($km^2$) and of the population exposed to the pollution;

(c) useful climatic data;

(d) relevant data on topography; and

(e) sufficient information on the type of targets requiring protection in the zone.

**3**. Responsible authorities (names and addresses of persons responsible for the development and implementation of improvement plans).

**4**. Nature and assessment of pollution-

(a) concentrations observed over previous years (before the implementation of the improvement measures);

(b) concentrations measured since the beginning of the project; and

(c) techniques used for the assessment.

**5**. Origin of pollution-

(a) list of the main emission sources responsible for pollution (map);

(b) total quantity of emissions from these sources (tonnes/year); and

(c) information on pollution imported from other regions.

**6**. Analysis of the situation-

(a) details of those factors responsible for the excess (transport, including cross-border transport, formation); and

(b) details of possible measures for improvement of air quality.

**7**. Details of those measures or projects for improvements which existed prior to 21 November 1996-

(a) local, regional, national and international measures; and

(b) observed effects of these measures.

**8**. Details of those measures or projects adopted with a view to reducing pollution following 21 November 1996-

(a) listing and description of all the measures set out in the project;

(b) timetable for implementation; and

(c) estimate of the improvement of air quality planned and of the expected time required to attain these objectives.

**9**. Details of the measures or projects planned or being researched for the long term.

**10**. List of the publications, documents and work used to supplement information required by this Schedule.

## ATODLEN 3

Rheoliad 11(6)

Trothwyon rhybuddio a gwybodaeth

### RHAN 1

Trothwyon rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid

| | |
|---|---|
| Nitrogen deuocsid | 400 µg/m³ wedi'i fesur dros dair awr yn olynol mewn lleoliadau sy'n gynrychioliadol o ansawdd aer dros o leiaf 100 km² neu barth cyfan neu grynhoad cyfan, pa un bynnag yw'r lleiaf |
| Sylffwr deuocsid | 500 µg/m³ wedi'i fesur dros dair awr yn olynol mewn lleoliadau sy'n gynrychioliadol o ansawdd aer dros o leiaf 100 km² neu barth cyfan neu grynhoad cyfan, pa un bynnag yw'r lleiaf |

### RHAN 2

Trothwyon rhybuddio a gwybodaeth ar gyfer osôn

| | *Paramedr* | *Trothwy* |
|---|---|---|
| Trothwy rhybuddio | Cyfartaledd o 1 awr[1] | 240 µg/m³ |
| Trothwy gwybodaeth | Cyfartaledd o 1 awr | 180 µg/m³ |

[1] At ddibenion rheoliad 11 (cynlluniau gweithredu), bydd gormodiant yn uwch na'r cyfartaledd o 1 awr mewn perthynas â'r trothwy rhybuddio yn cael ei fesur neu ei ragfynegi am dair awr yn olynol.

SCHEDULE 3

Regulation 11(6)

Alert and information thresholds

**PART 1**

Alert thresholds for nitrogen dioxide and sulphur dioxide

| | |
|---|---|
| Nitrogen dioxide | 400 µg/m³ measured over three consecutive hours at locations representative of air quality over at least 100 km² or an entire zone or agglomeration, whichever is the smaller |
| Sulphur dioxide | 500 µg/m³ measured over three consecutive hours at locations representative of air quality over at least 100 km² or an entire zone or agglomeration, whichever is the smaller |

**PART 2**

Alert and information thresholds for ozone

| | *Parameter* | *Threshold* |
|---|---|---|
| Alert threshold | 1-hour average[(1)] | 240 µg/m³ |
| Information threshold | 1-hour average | 180 µg/m³ |

[(1)] For the purposes of regulation 11 (action plans), exceedance of the 1-hour average in respect of the alert threshold is to be measured or predicted for three consecutive hours.

ATODLEN 4

Rheoliad 13(5)

Trothwyon asesu

**RHAN 1**

Trothwyon asesu ar gyfer llygryddion Grŵp A

**Bensen**

| | *Cyfartaledd blynyddol* |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 70% o'r gwerth terfyn (3.5 µg/m³) |
| Trothwy asesu isaf | 40% o'r gwerth terfyn (2 µg/m³) |

**Carbon monocsid**

| | *Cyfartaledd o wyth awr* |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 70% o'r gwerth terfyn (7 mg/m³) |
| Trothwy asesu isaf | 50% o'r gwerth terfyn (5 mg/m³) |

**Plwm**

| | *Cyfartaledd blynyddol* |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 70% o'r gwerth terfyn (0.35 µg/m³) |
| Trothwy asesu isaf | 50% o'r gwerth terfyn (0.25 µg/m³) |

**Nitrogen deuocsid (NO2) ac ocsidau nitrogen (NOx)**

| | *Gwerth terfyn bob awr ar gyfer diogelu iechyd pobl (NO2)* | *Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl (NO2)* | *Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu llystyfiant (NOx)* |
|---|---|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 70% o'r gwerth terfyn (140 µg/m³), sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 18 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr | 80% o'r gwerth terfyn (32 µg/m³) | 80% o'r gwerth terfyn (24 µg/m³) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trothwy asesu isaf | 50% o'r gwerth terfyn 100 µg/m³), sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 18 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr | 65% o'r gwerth terfyn (26 µg/m³) | 65% o'r gwerth terfyn (19.5 µg/m³) |

**$PM_{10}$**

| | *Cyfartaledd 24 awr* | *Cyfartaledd blynyddol* |
|---|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 60% o'r gwerth terfyn (30 µg/m³), sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 7 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr | 70% o'r gwerth terfyn (14 µg/m³) |
| Trothwy asesu isaf | 40% o'r gwerth terfyn (20 µg/m³), sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 7 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr | 50% o'r gwerth terfyn (10 µg/m³) |

**Sylffwr deuocsid**

| | *Diogelu iechyd* | *Diogelu'r ecosystem* |
|---|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 60% o'r gwerth terfyn 24 awr (75 µg/m³), sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 3 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr | 60% o werth terfyn y gaeaf (12 µg/m³) |
| Trothwy asesu isaf | 40% o'r gwerth terfyn 24 awr (50 µg/m³), sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef mwy na 3 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr | 40% o werth terfyn y gaeaf (8 µg/m³) |

**RHAN 2**

Trothwyon asesu ar gyfer llygryddion Grwp B

**Arsenig**

| | |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 60% o'r gwerth targed (3.6 ng/m³) |
| Trothwy asesu isaf | 40% o'r gwerth targed (2.4 ng/m³) |

**Benso(a)pyren**

| | |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 60% o'r gwerth targed (0.6 ng/m³) |
| Trothwy asesu isaf | 40% o'r gwerth targed (0.4 ng/m³) |

**Cadmiwm**

| | |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 60% o'r gwerth targed (3 ng/$m^3$) |
| Trothwy asesu isaf | 40% o'r gwerth targed (2 ng/$m^3$) |

**Nicel**

| | |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 70% o'r gwerth targed (14 ng/$m^3$) |
| Trothwy asesu isaf | 50% o'r gwerth targed (10 ng/$m^3$) |

## RHAN 3

Penderfynu pan fydd gormodiant uwchlaw trothwyon asesu

**1**. Rhaid i ormodiannau uwchlaw'r trothwyon asesu uchaf ac isaf gael eu penderfynu ar sail crynodiadau dros y pum mlynedd blaenorol pan fo data digonol ar gael. Bernir bod gormodiant uwchlaw trothwy asesu os yw wedi bod uwchlaw yn ystod o leiaf tair blynedd ar wahân allan o'r bum mlynedd blaenorol.

**2**. Pan fo llai na phum mlynedd o ddata ar gael, caiff ymgyrchoedd mesuriadau a gynhelir am gyfnodau byr yn ystod y flwyddyn ac mewn lleoliadau sy'n debygol o fod yn nodweddiadol o'r crynodiadau uchaf gael eu cyfuno gyda'r canlyniadau a gafwyd oddi wrth restri o ollyngiadau a gwaith modelu i benderfynu ar ormodiant uwchlaw'r trothwyon asesu uchaf ac isaf.

SCHEDULE 4

Regulation 13(5)

Assessment thresholds

**PART 1**

Assessment thresholds for Group A pollutants

**Benzene**

| | *Annual average* |
|---|---|
| Upper assessment threshold | 70% of limit value (3.5 µg/m³) |
| Lower assessment threshold | 40% of limit value (2 µg/m³) |

**Carbon monoxide**

| | *Eight-hour average* |
|---|---|
| Upper assessment threshold | 70% of limit value (7 mg/m³) |
| Lower assessment threshold | 50% of limit value (5 mg/m³) |

**Lead**

| | *Annual average* |
|---|---|
| Upper assessment threshold | 70% of limit value (0.35 µg/m³) |
| Lower assessment threshold | 50% of limit value (0.25 µg/m³) |

**Nitrogen dioxide (NO2) and oxides of nitrogen (NOx)**

| | *Hourly limit value for the protection of human health (NO2)* | *Annual limit value for the protection of human health (NO2)* | *Annual limit value for the protection of vegetation (NOx)* |
|---|---|---|---|
| Upper assessment threshold | 70% of limit value (140 µg/m³), not to be exceeded more than 18 times in any calendar year | 80% of limit value (32 µg/m³) | 80% of limit value (24 µg/m³) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lower assessment threshold | 50% of limit value (100 μg/m³), not to be exceeded more than 18 times in any calendar year | 65% of limit value (26 μg/m³) | 65% of limit value (19.5 μg/m³) |

**PM10**

| | *24-hour average* | *Annual average* |
|---|---|---|
| Upper assessment threshold | 60% of limit value (30 μg/m³), not to be exceeded more than 7 times in any calendar year | 70% of limit value (14 μg/m³) |
| Lower assessment threshold | 40% of limit value (20 μg/m³), not to be exceeded more than 7 times in any calendar year | 50% of limit value (10 μg/m³) |

**Sulphur dioxide**

| | *Health protection* | *Ecosystem protection* |
|---|---|---|
| Upper assessment threshold | 60% of 24-hour limit value (75 μg/m³), not to be exceeded more than 3 times in any calendar year | 60% of winter limit value (12 μg/m³) |
| Lower assessment threshold | 40% of 24-hour limit value (50 μg/m³), not to be exceeded more than 3 times in any calendar year | 40% of winter limit value (8 μg/m³) |

**PART 2**

Assessment thresholds for Group B pollutants

**Arsenic**

| | |
|---|---|
| Upper assessment threshold | 60% of target value (3.6 ng/m³) |
| Lower assessment threshold | 40% of target value (2.4 ng/m³) |

**Benzo(a)pyrene**

| | |
|---|---|
| Upper assessment threshold | 60% of target value (0.6 ng/m³) |
| Lower assessment threshold | 40% of target value (0.4 ng/m³) |

**Cadmium**

| | |
|---|---|
| Upper assessment threshold | 60% of target value (3 ng/m³) |
| Lower assessment threshold | 40% of target value (2 ng/m³) |

**Nickel**

| | |
|---|---|
| Upper assessment threshold | 70% of target value (14 ng/m3) |
| Lower assessment threshold | 50% of target value (10 ng/m3) |

## PART 3

Determination of when assessment thresholds are exceeded

**1**. Exceedances of upper and lower assessment thresholds must be determined on the basis of concentrations during the previous five years where sufficient data are available. An assessment threshold will be deemed to have been exceeded if it has been exceeded during at least three separate years out of the previous five years.

**2**. Where fewer than five years' data are available, measurement campaigns of short duration during the period of the year and at locations likely to be typical of the highest concentrations may be combined with results obtained from emission inventories and modelling to determine exceedances of the upper and lower assessment thresholds.

# ATODLEN 5

Rheoliad 15(1)(b)

Rheoliad 19(4)(b)

Rheoliad 20(3)(b)

Lleoli pwyntiau samplu

## RHAN 1

Lleoli ar y raddfa facro ar gyfer llygryddion Grŵp A

**Pwyntiau samplu ar gyfer diogelu iechyd pobl**

**1**. Dylai pwyntiau samplu a fwriadwyd ar gyfer diogelu iechyd pobl gael eu lleoli i ddarparu data ynglyn â'r-

(a) ardaloedd yn y parthau lle y mae'r crynodiadau uchaf yn digwydd ac y mae'r boblogaeth yn debygol o fod wedi bod yn agored iddynt naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am gyfnod sylweddol o ran cyfnod cyfartaleddu'r gwerth terfyn; a

(b) crynodiadau mewn ardaloedd eraill yn y parthau sy'n gynrychioliadol o'r boblogaeth gyffredinol gafodd a fu'n agored iddynt.

**2**. Yn gyffredinol dylai pwyntiau samplu gael eu lleoli i osgoi mesur micro-amgylcheddau bach sy'n agos iawn atynt. Fel canllaw, dylid lleoli pwynt samplu fel ei fod yn gynrychioliadol o ansawdd aer mewn ardal amgylchynol o ddim llai na 200 m² mewn safleoedd lle y mae llawer o draffig un agos atynt ac o sawl kilometr sgwâr mewn safleoedd cefndir trefol.

**3**. Hefyd, lle bo'n bosibl, dylai pwyntiau samplu fod yn gynrychioliadol o leoliadau tebyg nad ydynt yn agos iawn atynt.

**4**. Dylid ystyried yr angen i leoli pwyntiau samplu ar ynysoedd, lle y mae hynny'n angenrheidiol i ddiogelu iechyd pobl.

**Diogelu ecosystemau a llystyfiant**

**5**. Dylai pwyntiau samplu sydd wedi'u targedu at ddiogelu ecosystemau neu lystyfiant gael eu lleoli mwy na 20 km oddi wrth grynoadau neu dros 5 km oddi wrth ardaloedd adeiledig eraill, safleoedd diwydiannol neu draffyrdd. Fel canllaw, dylid lleoli pwynt samplu i gynrychioli ansawdd aer mewn ardal amgylchynol o 1000 km² o leiaf. Caniateir lleoli pwynt samplu ar bellter llai neu i gynrychioli ansawdd aer mewn ardal llai estynedig, gan gymryd amodau daearyddol i ystyriaeth.

**6**. Dylid ystyried yr angen i asesu ansawdd aer ar ynysoedd.

## RHAN 2

Lleoli ar y raddfa facro ar gyfer llygryddion Grŵp B

**7**. Dylid dewis safleoedd pwyntiau samplu mewn ffordd sy'n darparu data am-

(a) yr ardaloedd yn y parthau lle y mae'r boblogaeth yn debygol o fod wedi bod yn agored yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r crynodiadau uchaf cyfartalog yn ystod blwyddyn galendr;

(b) crynodiadau mewn ardaloedd eraill yn y parthau sy'n gynrychioliadol o ba mo'r agored fu'r boblogaeth gyffredinol i'r llygryddion;

(c) cyfraddau dyddodiad sy'n cynrychioli pa mor anuniongyrchol agored y bu'r boblogaeth i'r llygryddion trwy'r gadwyn fwyd.

**8**. Yn gyffredinol dylai pwyntiau samplu gael eu lleoli fel eu bod yn osgoi mesur micro-amgylcheddau bach iawn yn y cyffuniau agos. Fel arweiniad, dylai pwynt samplu fod yn gynrychioliadol o ansawdd aer mewn ardaloedd amgylchynol o ddim llai na 200 $m^2$ mewn safleoedd ar gyfer traffig yn bennaf, o leiaf 250m × 250m mewn safleoedd diwydiannol, lle bo hynny'n ddichonadwy, a sawl cilometr sgwâr mewn safleoedd cefndir trefol.

**9**. Pan anelir at asesu lefelau cefndir ni ddylai'r safle samplu gael ei ddylanwadu gan grynoadau neu safleoedd diwydiannol sydd wrth ymyl, hynny yw safleoedd sy'n nes nag ychydig o gilometrau.

**10**. Pan fo cyfraniadau o ffynonellau diwydiannol i gael eu hasesu, mae'n rhaid i o leiaf un pwynt samplu gael ei osod o du'r gwynt i'r ffynhonnell yn yr ardal breswyl agosaf. Lle na wyddys beth yw'r crynodiad cefndir, rhaid lleoli'r pwynt samplu ychwanegol yng nghyfeiriad y prif wynt. Yn benodol, pan fo rheoliad 9(1)(a) yn gymwys, dylid lleoli'r pwyntiau samplu fel y gellir monitro'r defnydd o'r mesurau y cyfeirir atynt yn rheoliad 7(2)(b).

**11**. Hefyd, pan fo'n bosibl, dylai pwyntiau samplu fod yn gynrychioliadol o leoliadau tebyg nad ydynt yn agos iawn atynt. Lle bo'n briodol, dylent gael eu cyd-leoli gyda phwyntiau samplu ar gyfer $PM_{10}$.

## RHAN 3

Lleoli ar y raddfa facro ar gyfer osôn

**12**. Rhaid i bwyntiau samplu ar gyfer osôn gael eu lleoli yn unol â'r ystyriaethau sydd wedi eu nodi yn y tabl canlynol-

| *Math o orsaf* | *Amcan y mesuriad* | *Cynrychioldeb*[(1)] | *Meini prawf lleoli ar y raddfa facro* |
|---|---|---|---|
| Trefol | <u>Diogelu iechyd pobl:</u> Asesu pa more agored yw'r boblogaeth drefol i osôn, h.y., pan fo'r dwysedd poblogaeth a chrynodiad osôn yn gymharol uchel ac yn nodweddiadol o ba mo'r agored yw'r boblogaeth gyffredinol | Ychydig o $km^2$ | I ffwrdd o ddylanwad allyriannau lleol megis traffig, gorsafoedd petrol etc.; lleoliadau awyredig lle gellir mesur y boblogaeth drefol a lefelau sydd wedi eu cymysgu'n dda; lleoliadau megis rhannau preswyl a rhannau masnachol mewn dinasoedd, parciau (i ffwrdd o'r coed), strydoedd mawr neu sgwarau gydag ychydig o draffig neu ddim o gwbl, mannau agored sy'n nodweddiadol o gyfleusterau addysg, chwaraeon neu hamdden. |
| Maestrefol | Diogelu iechyd pobl a llystyfiant: Asesu pa mo'r agored i lygredd yw'r boblogaeth a'r llystyfiant sydd wedi'u lleoli ar gyrion y crynhoad, lle y mae'r lefelau osôn uchaf, y mae'r boblogaeth a'r llystyfiant yn debygol o fod yn agored yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol iddynt, yn digwydd | Rhai degau o $km^2$ | Ar ryw bellter penodol o ardal yr allyriannau uchaf, o du'r gwynt gan ddilyn cyfeiriadau'r prif wynt yn ystod amodau sy'n ffafriol ar gyfer ffurfio osôn; lle y mae'r boblogaeth, cnydau sensitif neu ecosystemau naturiol wedi'u lleoli ar ymylon allanol crynhoad yn agored i lefelau uchel o osôn; os yw'n briodol, rhai gorsafoedd maestrefol sydd hefyd o du'r gwynt i'r ardal lle y mae'r allyriannau uchaf, er mwyn penderfynu lefelau cefndir rhanbarthol osôn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwledig | Diogelu iechyd pobl a llystyfiant: asesu pa mo'r agored yw'r boblogaeth, cnydau ac ecosystemau naturiol i grynodiadau osôn ar raddfa is-ranbarthol | Lefelau is-ranbarthol (ychydig o $km^2$) | Gellir lleoli gorsafoedd mewn cytrefi bychain a/neu ardaloedd ag ecosystemau naturiol, fforestydd neu gnydau; yn gynrychioladol ar gyfer osôn i ffwrdd o ddylanwad allyriannau lleol uniongyrchol megis safleoedd diwydiannol a ffyrdd; mewn safleoedd â mannau agored ond nid ar bennau'r mynyddoedd uchaf |
| Cefndir gwledig | Diogelu llystyfiant ac iechyd pobl: Asesu pa mo'r agored yw cnydau ac ecosystemau naturiol i grynodiadau osôn ar raddfa rhanbarthol yn ogystal â pha mor agored yw'r boblogaeth | Lefelau rhanbarthol /cenedlaethol/cyfandirol (1,000 i 10,000 $km^2$) | Gorsafoedd sydd wedi'u lleoli mewn mannau â dwysedd poblogaeth is, e.e. gydag ecosystemau naturiol, fforestydd, yn bell iawn o fannau trefol a diwydiannol ac i ffwrdd o allyriannau lleol; osgoi lleoliadau sy'n rhwym wrth y duedd leol i ffurfio amodau gwrthdroi sy'n agos at y ddaear, a chopâu'r mynyddoedd uchaf hefyd;<br><br>ni argymhellir safleoedd arfordirol gyda chylchoedd gwynt dyddiol amlwg sy'n lleol eu natur |

(1) Hefyd, os oes modd, dylai'r pwyntiau samplu fod yn gynrychioliadol o fannau tebyg nad ydynt yn agos iawn â hwy.

**13**. Ar gyfer gorsafoedd gwledig a gorsafoedd cefndir gwledig, dylid ystyried cydlynu, pan fo'n briodol, â'r gofynion monitro yn Rheoliad y Comisiwn 1091/94(**1**) ynghylch diogelu fforestydd y Gymuned rhag llygredd atmosfferig.

## RHAN 4

Lleoli ar y raddfa ficro

**14**. Dylid dilyn y canllawiau canlynol, cyn belled ag y bo'n ymarferol-

(a) dylai'r llif o amgylch profiedydd samplu y fewnfa fod yn ddigyfyngiad (ac, ar gyfer samplu osôn, yn rhydd mewn cylchran o 270° o leiaf), heb unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar lif yr aer yng nghyffiniau'r samplwr (yn arferol rhai metrau i ffwrdd o adeiladau, balconïau, coed ac unrhyw rwystrau eraill a hynny â mwy na dwywaith gymaint y gwahaniaeth rhwng uchder y rhwystr ac ymestyn y samplwr ac o leiaf 0.5 m o'r adeilad agosaf mewn achos pwyntiau samplu sy'n cynrychioli ansawdd aer yn llinell yr adeilad);

(b) yn gyffredinol, dylai pwynt samplu'r fewnfa fod rhwng 1.5 m (y parth anadlu) a 4 m uwchlaw'r ddaear. Caiff safleoedd uwch fod yn angenrheidiol hefyd (hyd at 8 m) mewn rhai amgylchiadau ac mewn mannau coediog. Caiff lleoliad uwch fod yn briodol hefyd os yw'r orsaf yn gynrychioliadol o ardal fawr;

(c) ni ddylid lleoli profiedydd y fewnfa yn agos at ffynonellau er mwyn osgoi derbyn allyriannau'n uniongyrchol heb iddynt fod wedi eu cymysgu gydag aer amgylchynol;

(ch) dylai allfa wacáu'r samplwr fod wedi'i lleoli er mwyn osgoi ailgylchu nwyon llosg i fewnfa'r samplwr;

(d) mewn perthynas â lleoli sampleri sy'n gysylltiedig â thraffig-

(i) ar gyfer pob llygrydd, dylai pwyntiau samplu o'r fath fod o leiaf 25 m oddi wrth ymyl prif gyffyrdd ac o leiaf 4 m o ganol y lôn draffig agosaf,

(**1**) OJ Rhif L 125, 18.05.94, p.1.

(ii) ar gyfer nitrogen deuocsid a charbon monocsid, ni ddylai'r mewnfeydd fod yn fwy na 5 m oddi wrth ymyl y cwrb, a

(iii) ar gyfer $PM_{10}$, plwm, bensen a llygryddion Grŵp B, dylai mewnfeydd fod wedi eu lleoli er mwyn bod yn gynrychioliadol o ansawdd aer wrth ymyl llinell yr adeiladau;

(dd) ar gyfer osôn, dylid lleoli profiedydd y fewnfa yn ddigon pell oddi wrth ffynonellau fel ffwrneisi a ffliwiau llosgi a dros 10 m oddi wrth y ffordd agosaf, gyda'r pellter yn cynyddu yn ôl dwysedd y traffig;

(e) ar gyfer mesur dyddodion mewn ardaloedd cefndir gwledig mewn perthynas â llygryddion Grwp B a llygryddion eraill sy'n disgyn o fewn rheoliadau 19 ac 20, dylid cymhwyso canllawiau a meini prawf Monitro a Gwerthuso Llygryddion Ewrop ar yr amod bod hynny'n ymarferol.

**15**. Gall y ffactorau canlynol gael eu cymryd i ystyriaeth hefyd-

(a) ffynonellau sy'n ymyrryd;

(b) diogelwch;

(c) hygyrchedd;

(ch) a oes pŵer trydan a chysylltiadau ffôn ar gael;

(d) gwelededd y safle mewn perthynas â'i amgylchoedd;

(dd) diogelwch y cyhoedd a'r gweithredwyr;

(e) a yw'n ddymunol cyd-leoli pwyntiau samplu ar gyfer gwahanol lygryddion;

(f) gofynion cynllunio.

## RHAN 5

Dogfennaeth ac adolygu dewis safle

**16**. Dylai gweithdrefnau dewis safleoedd gael eu dogfennu'n llawn adeg y cam dosbarthu drwy gyfrwng megis ffotograffau pwynt-cwmpawd o'r ardal amgylchynol a map manwl. Dylid adolygu safleoedd yn rheolaidd gan ailadrodd y gwaith dogfennu i sicrhau bod y meini prawf dewis yn cael eu bodloni o hyd.

**17**. O ran osôn, mae hyn yn gofyn am sgrinio a dehongli'r data monitro'n briodol yng nghyd-destun y prosesau meteorolegol a ffotocemegol sy'n effeithio ar grynodiadau osôn sy'n cael eu mesur yn y safle priodol.

# SCHEDULE 5

Regulation 15(1)(b)

Regulation 19(4)(b)

Regulation 20(3)(b)

Location of sampling points

## PART 1

Macroscale siting for Group A pollutants

**Sampling points for the protection of human health**

**1**. Sampling points directed at the protection of human health should be sited to provide data on-

(a) the areas within zones where the highest concentrations occur to which the population is likely to be directly or indirectly exposed for a period which is significant in relation to the averaging period of the limit value; and

(b) concentrations in other areas within the zones which are representative of the exposure of the general population.

**2**. Sampling points should in general be sited to avoid measuring very small micro-environments in their immediate vicinity. As a guideline, a sampling point should be sited to be representative of air quality in a surrounding area of no less than 200 $m^2$ at traffic-orientated sites and of several square kilometres at urban-background sites.

**3**. Sampling points should also, where possible, be representative of similar locations not in their immediate vicinity.

**4**. Account should be taken of the need to locate sampling points on islands, where that is necessary for the protection of human health.

**Protection of ecosystems and vegetation**

**5**. Sampling points targeted at the protection of ecosystems or vegetation should be sited more than 20 km from agglomerations or more than 5 km from other built-up areas, industrial installations or motorways. As a guideline, a sampling point should be sited to be representative of air quality in a surrounding area of at least 1000 $km^2$. A sampling point may be sited at a lesser distance or to be representative of air quality in a less extended area, taking account of geographical conditions.

**6**.Account should be taken of the need to assess air quality on islands.

## PART 2

Macroscale siting for Group B pollutants

**7**. The sites of sampling points should be selected in such a way as to provide data on-

(a) the areas within zones where the population is likely to be directly or indirectly exposed to the highest concentrations averaged over a calendar year;

(b) concentrations in other areas within zones which are representative of the exposure of the general population;

(c) deposition rates representing the indirect exposure of the population through the food chain.

**8**. Sampling points should in general be sited so as to avoid measuring very small micro-environments in their immediate vicinity. As a guideline, a sampling point should be representative of air quality in surrounding areas of

no less than 200 m² at traffic-orientated sites, at least 250 m × 250 m at industrial sites, where feasible, and several square kilometres at urban-background sites.

**9**. Where the objective is to assess background levels the sampling site should not be influenced by agglomerations or industrial sites in its vicinity, i.e. sites closer than a few kilometres.

**10**. Where contributions from industrial sources are to be assessed, at least one sampling point must be installed downwind of the source in the nearest residential area. Where the background concentration is not known, an additional sampling point must be situated within the main wind direction. In particular, where regulation 9(1)(a) applies, the sampling points should be sited such that the application of the measures referred to at regulation 7(2)(b) can be monitored.

**11**. Sampling points should also, where possible, be representative of similar locations not in their immediate vicinity. Where appropriate, they should be co-located with sampling points for $PM_{10}$.

## PART 3

Macroscale siting for ozone

**12**. Sampling points for ozone must be located in accordance with the considerations set out in the following table-

| *Type of station* | *Objective of measurement* | *Representativeness*[(1)] | *Macroscale siting criteria* |
|---|---|---|---|
| Urban | Protection of human health: to assess the exposure of the urban population to ozone, i.e. where the population density and ozone concentration are relatively high and representative of the exposure of the general population | A few km² | Away from the influence of local emissions such as traffic, petrol stations etc.; vented locations where the urban population to well mixed levels can be measured; locations such as residential and commercial areas of cities, parks (away from the trees), big streets or squares with very little or no traffic open areas characteristic of education, sports or recreation facilities |
| Suburban | Protection of human health and vegetation: To assess the exposure of the population and vegetation located in the outskirts of the agglomeration, where the highest ozone levels, to which the population and vegetation is likely to be directly or indirectly exposed, occur | Some tens of km² | At a certain distance from the area of maximum emissions, downwind following the main wind direction during conditions favourable to ozone formation; where population, sensitive crops or natural ecosystems located in the outer fringe of an agglomeration are exposed to high ozone levels; where appropriate, some sub urban stations also upwind of the area of maximum emissions, in order to determine the regional background levels of ozone |
| Rural | Protection of human health and vegetation: to assess the exposure of population, crops and natural ecosystems to sub-regional scale ozone concentrations | Sub-regional levels (a few km²) | Stations can be located in small settlements and/or areas with natural ecosystems, forests or crops; representative for ozone away from the influence of immediate local emissions such as industrial installations and |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | roads; at open area sites, but not on higher mountain-tops |
| Rural background | Protection of vegetation and human health: To assess the exposure of crops and natural ecosystems to regional-scale ozone concentrations as well as exposure of the populations | Regional/national /continental levels (1,000 to 10,000 km2) | Stations located in areas with lower population density, e.g. with natural ecosystems, forests, far removed from urban and industrial areas and away from local emissions; avoid locations which are subject to locally enhanced formation of near-ground inversion conditions, also summits of higher mountains; coastal sites with pronounced diurnal wind cycles of local character are not recommended |

[(1)] Sampling points should also, where possible, be representative of similar locations not in their immediate vicinity.

**13**. For rural and background stations, consideration should be given, where appropriate, to co-ordination with the monitoring requirements of Commission Regulation 1091/94(**1**) concerning protection of the Community's forests against atmospheric pollution.

## PART 4

Microscale siting

**14**. The following guidelines should be met as far as practicable-

(a) the flow around the inlet sampling probe should be unrestricted (and, for ozone sampling, free in an arc of at least 270°), without any obstructions affecting the airflow in the vicinity of the sampler (normally some metres away from buildings, balconies, trees and other obstacles by more than twice the height the obstacle protrudes above the sampler and at least 0.5 m from the nearest building in the case of sampling points representing air quality at the building line);

(b) in general, the inlet sampling point should be between 1.5 m (the breathing zone) and 4 m above the ground. Higher positions (up to 8 m) may be necessary in some circumstances and in wooded areas. Higher siting may also be appropriate if the station is representative of a large area;

(c) the inlet probe should not be positioned in the immediate vicinity of sources in order to avoid the direct intake of emissions unmixed with ambient air;

(d) the sampler's exhaust outlet should be positioned so that recirculation of exhaust air to the sampler inlet is avoided;

(e) in relation to the location of traffic orientated samplers-

(i) for all pollutants, such sampling points should be at least 25 m from the edge of major junctions and at least 4 m from the centre of the nearest traffic lane,

(ii) for nitrogen dioxide and carbon monoxide, inlets should be no more than 5 m from the kerbside, and

(iii) for PM10, lead, benzene and Group B pollutants, inlets should be sited so as to be representative of air quality near to the building line;

(f) for ozone, the inlet probe should be positioned well away from such sources as furnaces and incineration flues and more than 10 m from the nearest road, with distance increasing as a function of traffic intensity;

(g) for deposition measurements in rural background areas as respects Group B pollutants and other pollutants falling within regulations 19 and 20, the European Monitoring and Evaluation of Pollutants guidelines and criteria should be applied as far as practicable.

**15**. The following factors may also be taken into account-

(a) interfering sources;

(b) security;

(**1**) OJ No L 125, 18.05.94, p.1.

(c) access;

(d) availability of electrical power and telephone communications;

(e) visibility of the site in relation to its surroundings;

(f) safety of public and operators;

(g) the desirability of co-locating sampling points for different pollutants;

(h) planning requirements.

## PART 5

### Documentation and review of site selection

**16**. The site-selection procedures should be fully documented at the classification stage by such means as compass-point photographs of the surrounding area and a detailed map. Sites should be reviewed at regular intervals with repeated documentation to ensure that selection criteria remain valid over time.

**17**. For ozone, this requires screening and interpretation of the monitoring data in the context of the meteorological and photochemical processes affecting the ozone concentrations measured at the respective site.

## ATODLEN 6

Rheoliad 15(2)

Isafsymiau'r pwyntiau samplu

### RHAN 1

Llygryddion Grŵp A: gwerthoedd terfyn yn seiliedig ar iechyd pobl a throthwyon rhybuddio

**1**. Mae'r Rhan hon yn nodi isafswm y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog o lygryddion Grŵp A i asesu cydymffurfedd â'r gwerthoedd terfyn ar gyfer diogelu iechyd pobl a throthwyon rhybuddio mewn parthau os mesuriadau sefydlog yw'r unig ffynhonnell wybodaeth.

**Ffynonellau gwasgaredig**

| *Poblogaeth y parth (miloedd)* | *Os yw'r crynodiadau yn uwch na'r trothwy asesu uchaf*[1] | *Os yw uchafswm y crynodiadau rhwng y trothwyon asesu uchaf ac isaf* | *Ar gyfer nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid mewn crynoadau lle mae'r crynodiadau uchaf islaw'r trothwyon asesu isaf* |
|---|---|---|---|
| 0-249 | 1 | 1 | ddim yn gymwys |
| 250-499 | 2 | 1 | 1 |
| 500-749 | 2 | 1 | 1 |
| 750-999 | 3 | 1 | 1 |
| 1,000-1,499 | 4 | 2 | 1 |
| 1,500-1,999 | 5 | 2 | 1 |
| 2,000-2,749 | 6 | 3 | 2 |
| 2,750-3,749 | 7 | 3 | 2 |
| 3,750-4,749 | 8 | 4 | 2 |
| 4,750-5,999 | 9 | 4 | 2 |
| 6,000 neu fwy | 10 | 5 | 3 |

(1) Ar gyfer NO2 a $PM_{10}$ i gynnwys o leiaf un orsaf cefndir trefol ac un orsaf traffig-gyfeiriedig; mae'r gofyniad hwn hefyd yn gymwys i bensen a charbon monocsid ar yr amod nad yw'n cynyddu nifer y pwyntiau samplu.

**Ffynonellau pwyntiau**

**2**. Ar gyfer asesu llygredd wrth ymyl ffynonellau pwyntiau, dylai nifer y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog gael ei gyfrifo gan roi ystyriaeth i ddwysedd yr allyriannau, patrymau dosbarthiad tebygol llygredd aer amgylchynol a phosibilrwydd o ran pa mor agored yw'r boblogaeth i lygredd.

## RHAN 2

Llygryddion Grŵp A: gwerthoedd terfyn ar gyfer diogelu ecosystemau neu lystyfiant

**3**. Mae'r Tabl isod yn nodi isafswm y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog i asesu cydymffurfedd â'r gwerthoedd terfyn ar gyfer diogelu ecosystemau neu lystyfiant mewn parthau ar wahân i grynoadau.

| *Os yw mwyafswm y crynodiadau yn uwch na'r trothwy asesu uchaf* | *Os yw mwyafswm y crynodiadau rhwng y trothwyon asesu uchaf ac isaf* |
|---|---|
| 1 orsaf bob 20,000 km2 | 1 orsaf bob 40,000 km2 |

**4**. Mewn parthau ar ynysoedd, dylai nifer y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog gael ei gyfrifo gan ystyried patrymau dosbarthiad tebygol llygredd aer amgylchynol a phosibilrwydd o ran pa mor agored yw ecosystemau neu lystyfiant i lygredd.

## RHAN 3

Llygryddion Grŵp B

**5**. Mae'r Rhan hon yn nodi isafswm y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog o lygryddion Grŵp B i asesu cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed ar gyfer diogelu iechyd pobl mewn parthau os mesuriadau sefydlog yw'r unig ffynhonnell o wybodaeth.

**Ffynonellau gwasgaredig**

| *Poblogaeth y parth (miloedd)* | *Os yw'r crynodiadau mwyaf yn uwch na'r trothwy asesu uchaf*[1] | | *Os yw'r crynodiadau mwyaf rhwng y trothwyon asesu uchaf ac isaf* | |
|---|---|---|---|---|
| | Arsenig, Cadmiwm, Nicel | Benso(a)pyren | Arsenig, Cadmiwm, Nicel | Benso(a)pyren |
| 0-749 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| 750-1,999 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| 2,000-3,749 | 2 | 3 | 1 | 1 |
| 3,750-4,749 | 3 | 4 | 2 | 2 |
| 4,750-5,999 | 4 | 5 | 2 | 2 |
| =6,000 | 5 | 5 | 2 | 2 |

[1] I gynnwys o leiaf un orsaf cefndir trefol ac ar gyfer benso(a)pyren un orsaf traffig-gyfeiriedig hefyd ar yr amod nad yw hyn yn cynyddu nifer y pwyntiau samplu.

**Ffynonellau pwyntiau**

**6**. Ar gyfer asesu llygredd yng nghyffiniau ffynonellau pwyntiau, dylai nifer y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog gael ei benderfynu gan ystyried dwysedd y gollyngiad, patrymau dosbarthiad tebygol y llygredd aer amgylchynol a'r posibilrwydd o ran pa mor agored yw'r boblogaeth i lygredd. Dylid lleoli'r pwyntiau samplu fel y gellir monitro cymhwysedd y mesurau y cyfeirir atynt yn rheoliad 7(2)(b).

## RHAN 4

Osôn

**7**. Ac eithrio i'r graddau y mae fel arall yn cael ei ddarparu gan reoliad 15(5) neu (6), mae isafswm nifer y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau parhaus sefydlog i asesu ansawdd aer gyda golwg ar gydymffurfedd â'r gwerthoedd targed, yr amcanion hirdymor a throthwyon gwybodaeth a rhybuddio os mesuriadau parhaus yw'r unig ffynhonnell o wybodaeth wedi cael eu nodi yn y tabl isod.

| *Poblogaeth y parth (miloedd)* | *Crynoadau (trefol a maestrefol)*[(1)] | *Parthau eraill (maestrefol a gwledig)*[(1)] | *Cefndir gwledig* |
|---|---|---|---|
| 0-249 | | 1 | 1 orsaf/50,000 km² fel dwysedd cyfartalog ar gyfer pob parth yng Nghymru[(2)] |
| 250-499 | 1 | 2 | 1 orsaf/50,000 km² fel dwysedd cyfartalog ar gyfer pob parth yng Nghymru[(2)] |
| 500-999 | 2 | 2 | 1 orsaf/50,000 km² fel dwysedd cyfartalog ar gyfer pob parth yng Nghymru[(2)] |
| 1,000-1,499 | 3 | 3 | 1 orsaf/50,000 km² fel dwysedd cyfartalog ar gyfer pob parth yng Nghymru[(2)] |
| 1,500-1,999 | 3 | 4 | 1 orsaf/50,000 km² fel dwysedd cyfartalog ar gyfer pob parth yng Nghymru[(2)] |
| 2,000-2,749 | 4 | 5 | 1 orsaf/50,000 km² fel dwysedd cyfartalog ar gyfer pob parth yng Nghymru[(2)] |
| 2,750-3,749 | 5 | 6 | 1 orsaf/50,000 km² fel dwysedd cyfartalog ar gyfer pob parth yng Nghymru[(2)] |
| 3,750 neu fwy | 1 orsaf ychwanegol fesul 2 filiwn o drigolion | 1 orsaf ychwanegol fesul 2 filiwn o drigolion | 1 orsaf/50,000 km² fel dwysedd cyfartalog ar gyfer pob parth yng Nghymru[(2)] |

[(1)] O leiaf 1 orsaf mewn ardaloedd maestrefol, lle mae datguddiad uchaf y boblogaeth yn debyg o ddigwydd. Mewn crynoadau, dylai o leiaf 50% o'r gorsafoedd fod wedi'u lleoli mewn mannau maestrefol.

[(2)] 1 orsaf fesul 25,000 km² yw'r argymhelliad ar gyfer tir cymhleth.

## RHAN 5

Osôn: isafswm y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog y parthau sy'n cyrraedd yr amcanion hirdymor

**8**. Mewn achosion lle mae parthau yn cyrraedd yr amcanion hirdymor, mae'n rhaid i nifer y pwyntiau samplu ar gyfer osôn, mewn cyfuniad â dulliau eraill o asesu ychwanegol megis modelu ansawdd aer a mesuriadau nitrogen deuocsid sydd wedi'u cydleoli, fod yn ddigon i archwilio tuedd llygredd osôn a gwirio cydymffurfedd â'r amcanion hirdymor.

**9**. Caniateir lleihau nifer y gorsafoedd sydd wedi'u lleoli mewn crynoadau a pharthau eraill i draean o'r nifer a bennir yn y Tabl yn Rhan 4. Os gwybodaeth o orsafoedd mesuriadau sefydlog yw unig ffynhonnell yr wybodaeth, dylid cadw o leiaf un orsaf fonitro. Os canlyniad hyn, mewn parthau lle ceir asesiad ychwanegol, yw nad oes gan barth unrhyw orsaf ar ôl, rhaid sicrhau drwy gydlynu â nifer y gorsafoedd mewn parthau cymdogol fod asesiad digonol o grynodiadau osôn yn erbyn amcanion hirdymor yn cael ei gynnal.

**10**. Dylai nifer y gorsafoedd cefndir gwledig fod yn 1 bob 100,000 $km^2$.

## SCHEDULE 6

Regulation 15(2)

Minimum number of sampling points

### PART 1

Group A pollutants: human health-based limit values and alert thresholds

**1**. This Part sets out the minimum number of sampling points for fixed measurement of Group A pollutants to assess compliance with limit values for the protection of human health and alert thresholds in zones where fixed measurement is the sole source of information.

**Diffuse sources**

| *Population of zone (thousands)* | *If concentrations exceed the upper assessment threshold(1)* | *If maximum concentrations are between the upper and lower assessment thresholds* | *For nitrogen dioxide and sulphur dioxide in agglomerations where maximum concentrations are below the lower assessment thresholds* |
|---|---|---|---|
| 0-249 | 1 | 1 | not applicable |
| 250-499 | 2 | 1 | 1 |
| 500-749 | 2 | 1 | 1 |
| 750-999 | 3 | 1 | 1 |
| 1,000-1,499 | 4 | 2 | 1 |
| 1,500-1,999 | 5 | 2 | 1 |
| 2,000-2,749 | 6 | 3 | 2 |
| 2,750-3,749 | 7 | 3 | 2 |
| 3,750-4,749 | 8 | 4 | 2 |
| 4,750-5,999 | 9 | 4 | 2 |
| 6,000 or more | 10 | 5 | 3 |

(1) For NO2 and PM10 to include at least one urban-background station and one traffic-orientated station; this requirement also applies to benzene and carbon monoxide provided that it does not increase the number of sampling points.

**Point sources**

**2**. For the assessment of pollution in the vicinity of point sources, the number of sampling points for fixed measurement should be calculated taking into account emission densities, the likely distribution patterns of ambient-air pollution and the potential exposure of the population.

## PART 2

Group A pollutants: limit values for the protection of ecosystems or vegetation

**3**. The Table below sets out the minimum number of sampling points for fixed measurements to assess compliance with limit values for the protection of ecosystems or vegetation in zones other than agglomerations.

| *If maximum concentrations exceed the upper assessment threshold* | *If maximum concentrations are between the upper and lower assessment thresholds* |
|---|---|
| 1 station every 20,000 km2 | 1 station every 40,000 $km^2$ |

**4**. In island zones, the number of sampling points for fixed measurement should be calculated taking into account the likely distribution patterns of ambient-air pollution and the potential exposure of ecosystems or vegetation.

## PART 3

Group B pollutants

**5**. This Part sets out the minimum number of sampling points for fixed measurement of Group B pollutants to assess compliance with target values for the protection of human health in zones where fixed measurement is the sole source of information.

**Diffuse sources**

| *Population of zone (thousands)* | *If maximum concentrations exceed the upper assessment threshold(1)* | | *If maximum concentrations are between the upper and lower assessment thresholds* | |
|---|---|---|---|---|
| | Arsenic, Cadmium, Nickel | Benzo(a) pyrene | Arsenic, Cadmium, Nickel | Benzo(a)pyrene |
| 0-749 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| 750-1,999 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| 2,000-3,749 | 2 | 3 | 1 | 1 |
| 3,750-4,749 | 3 | 4 | 2 | 2 |
| 4,750-5,999 | 4 | 5 | 2 | 2 |
| =<6,000 | 5 | 5 | 2 | 2 |

(1) To include at least one urban-background station and for benzo(a)pyrene also one traffic-oriented station provided this does not increase the number of sampling points.

**Point sources**

**6**. For the assessment of pollution in the vicinity of point sources, the number of sampling points for fixed measurement should be determined taking into account emission densities, the likely distribution patterns of ambient air pollution and potential exposure of the population. The sampling points should be sited such that the application of the measures referred to at regulation 7(2)(b) can be monitored.

## PART 4

Ozone

**7**. Except insofar as otherwise provided by regulation 15(5) or (6), the minimum number of sampling points for fixed continuous measurement to assess air quality in view of compliance with the target values, long-term objectives and information and alert thresholds where continuous measurement is the sole source of information is set out in the table below.

| *Population of zone (thousands)* | *Agglomerations (urban and suburban)(1)* | *Other zones (suburban and rural)(1)* | *Rural background* |
|---|---|---|---|
| 0-249 | | 1 | 1 station/50,000 km² as an average density over all zones in Wales[(2)] |
| 250-499 | 1 | 2 | 1 station/50,000 km² as an average density over all zones in Wales[(2)] |
| 500-999 | 2 | 2 | 1 station/50,000 km² as an average density over all zones in Wales[(2)] |
| 1,000-1,499 | 3 | 3 | 1 station/50,000 km² as an average density over all zones in Wales[(2)] |
| 1,500-1,999 | 3 | 4 | 1 station/50,000 km² as an average density over all zones in Wales[(2)] |
| 2,000-2,749 | 4 | 5 | 1 station/50,000 km² as an average density over all zones in Wales[(2)] |
| 2,750-3,749 | 5 | 6 | 1 station/50,000 km² as an average density over all zones in Wales[(2)] |
| 3,750 or more | 1 additional station per 2 million inhabitants | 1 additional station per 2 million inhabitants | 1 station/50,000 km² as an average density over all zones in Wales[(2)] |

[(1)] At least 1 station in suburban areas, where the highest exposure of the population is likely to occur. In agglomerations at least 50% of the stations should be located in suburban areas.

[(2)] 1 station per 25,000 km² for complex terrain is recommended.

## PART 5

Ozone: minimum number of sampling points for fixed measurements for zones attaining the long-term objectives

**8**. In cases where zones attain the long-term objectives, the number of sampling points for ozone must, in combination with other means of supplementary assessment such as air quality modelling and co-located nitrogen dioxide measurements, be sufficient to examine the trend of ozone pollution and check compliance with the long-term objectives.

**9**. The number of stations located in agglomerations and other zones may be reduced to one-third of the number specified in the Table in Part 4. Where information from fixed measurement stations is the sole source of information, at least one monitoring station should be kept. If, in zones where there is supplementary assessment, the result of this is that a zone has no remaining station, co-ordination with the number of stations in neighbouring zones must ensure adequate assessment of ozone concentrations against long-term objectives.

**10**. The number of rural background stations should be 1 per 100,000 $km^2$.

# ATODLEN 7

Rheoliad 15(6)(b)

Rheoliad 16(1)

Gofynion ar gyfer dulliau asesu ac eithrio mesuriadau sefydlog

## RHAN 1

Llygryddion Grŵp A

**1**. Rhaid llunio'r gwybodaeth ganlynol ar gyfer parthau lle defnyddir ffynonellau eraill ar wahân i fesuriadau sefydlog i ychwanegu at y gwybodaeth a geir o fesuriadau sefydlog neu fel yr unig ddull o asesu ansawdd aer-

(a) disgrifiad o weithgareddau asesu a gynhelir;

(b) y dulliau penodol a ddefnyddir, gyda chyfeiriadau at ddisgrifiadau o'r dull;

(c) ffynonellau data a gwybodaeth;

(ch) disgrifiad o ganlyniadau, gan gynnwys ansicrwydd ac, yn arbennig, maint unrhyw ardal neu, os yn berthnasol, hyd y ffordd yn y parth lle mae'r crynodiadau yn uwch na'r gwerth terfyn neu, yn ôl yr achos, y gwerth terfyn ynghyd â'r ffin goddefaint cymwys ac unrhyw ardal lle bo'r crynodiadau yn uwch na'r trothwy asesu uchaf neu'r trothwy asesu isaf;

(d) ar gyfer gwerthoedd terfyn sydd â'r nod o ddiogelu iechyd pobl, y boblogaeth a allai fod yn agored i grynodiadau sy'n uwch na'r gwerth terfyn.

**2**. Lle bo hynny'n bosibl, rhaid sicrhau bod mapiau yn cael eu llunio sy'n dangos dosbarthiadau'r crynodiadau ym mhob parth.

## RHAN 2

Llygryddion Grŵp B

**Gofynion ar gyfer modelau ansawdd aer**

**3**. Lle defnyddir model ansawdd aer ar gyfer asesu, rhaid i unrhyw cyfeiriadau at ddisgrifiadau o'r model a gwybodaeth ynglyn â'r ansicrwydd gael ei llunio. Mae'r ansicrwydd ar gyfer modelu yn golygu'r uchafswm amrywiadau ar y lefelau crynodiad a gyfrifir ac a fesurir, dros flwyddyn lawn, heb gymryd fewn i ystyriaeth amseriad y digwyddiadau.

**Gofynion ar gyfer dulliau amcangyfrif gwrthrychol**

**4**. Lle defnyddir dulliau amcangyfrif gwrthrychol, ni chaiff yr ansicrwydd fod yn uwch na 100%.

**Safoni**

**5**. Ar gyfer sylweddau i'w dadansoddi yn y ffracsiwn $PM_{10}$, mae'r cyfaint samplu yn cyfeirio at amodau amgylchynol.

## RHAN 3

**Osôn a sylweddau rhagsylweddyn osôn**

**6**. Dylai'r wybodaeth ganlynol gael ei llunio ar gyfer parthau lle y defnyddir ffynonellau ag eithrio mesuriadau i ychwanegu at wybodaeth a geir o fesuriadau-

(a) disgrifiad o'r gweithgareddau asesu a wnaed;

(b) y dulliau penodol a ddefnyddiwyd, gan gyfeirio at ddisgrifiadau o'r dull;

(c) y ffynonellau data a gwybodaeth;

(ch) disgrifiad o'r canlyniadau, gan gynnwys ansicrwydd ac, yn benodol, hyd a lled unrhyw ardal yn y parth lle mae'r crynodiadau'n uwch na'r amcanion hirdymor neu'r gwerthoedd targed;

(d) ar gyfer amcanion hirdymor neu werthoedd targed sy'n anelu at ddiogelu iechyd pobl, y boblogaeth a allai fod yn agored i grynodiadau sy'n uwch na'r trothwy.

**7**. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod mapiau yn cael eu llunio sy'n dangos dosbarthiadau'r crynodiadau ym mhob parth.

# SCHEDULE 7

Regulation 15(6)(b)

Regulation 16(1)

Requirements for assessment methods other than fixed measurement

## PART 1

Group A pollutants

**1**. The following information must be compiled for zones within which sources other than fixed measurement are employed to supplement information from fixed measurement or as the sole means of air quality assessment-

(a) a description of assessment activities carried out;

(b) the specific methods used, with references to descriptions of the method;

(c) the sources of data and information;

(d) a description of results, including uncertainties and, in particular, the extent of any area or, if relevant, the length of road within the zone over which concentrations exceed the limit value or, as the case may be, the limit value plus applicable margin of tolerance and of any area within which concentrations exceed the upper assessment threshold or the lower assessment threshold;

(e) for limit values the object of which is the protection of human health, the population potentially exposed to concentrations in excess of the limit value.

**2**. Where possible, maps must be compiled showing concentration distributions within each zone.

## PART 2

Group B pollutants

**Requirements for air quality models**

**3**. Where an air quality model is used for assessment, references to descriptions of the model and information on the uncertainty must be compiled. The uncertainty for modelling is defined as the maximum deviation of the measured and calculated concentration levels, over a full year, without taking into account the timing of the events.

**Requirements for objective estimation techniques**

**4**. Where objective estimation techniques are used, the uncertainty must not exceed 100%.

**Standardisation**

**5**. For substances to be analysed in the $PM_{10}$ fraction, the sampling volume refers to ambient conditions.

## PART 3

Ozone and ozone precursor substances

**6**. The following information should be compiled for zones within which sources other than measurements are employed to supplement information from measurement-

(a) a description of the assessment activities carried out;

(b) specific methods used, with references to descriptions of the method;

(c) sources of data and information;

(d) a description of results, including uncertainties and, in particular, the extent of any area within the zone over which concentrations exceed long-term objectives or target values;

(e) for long-term objectives or target values whose object is the protection of human health, the population potentially exposed to concentrations in excess of the threshold.

**7**. The National Assembly must ensure that maps are compiled showing concentration distributions within each zone.

# ATODLEN 8

Rheoliad16(2)

Rheoliad 17(2)(d)

Rheoliad 19(6)

Rheoliad 20(4)

Amcanion ansawdd data

## RHAN 1

Llygryddion Grŵp A a $PM_{2.5}$

**Llygryddion Grŵp A (heblaw bensen a charbon monocsid) a $PM_{2.5}$**

**1**. Mae amcanion ansawdd data wedi eu nodi yn y tabl a'r paragraffau isod ar gyfer cywirdeb gofynnol y dulliau asesu, lleiafswm yr amser a gwmpesir a lleiafswm y data a gipir yn sgil mesur yn cael eu darparu fel canllawiau i raglenni sicrwydd ansawdd-

| | *Sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen* | *Plwm, $PM_{2.5}$ a $PM_{10}$* |
|---|---|---|
| *Mesuriadau parhaus* | | |
| Cywirdeb | 15% | 25% |
| Lleiafswm y data a gipir | 90% | 90% |
| *Mesuriadau dangosol* | | |
| Cywirdeb | 25% | 50% |
| Lleiafswm y data a gipir | 90% | 90% |
| Lleiafswm yr amser a gwmpesir | 14% (Un mesuriad yr wythnos ar hap, wedi ei ddosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn, neu wyth wythnos wedi eu dosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn) | 14% (Un mesuriad yr wythnos ar hap, wedi ei ddosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn, neu wyth wythnos wedi ei ddosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn) |
| *Modelu* | | |
| Cywirdeb | | |
| Cyfartaleddau bob awr | 50%-60% | |
| Cyfartaleddau bob diwrnod | 50% | |
| Cyfartaleddau blynyddol | 30% | 50% |
| Amcangyfrif gwrthrychol | | |
| Cywirdeb | 75% | 100% |

**2**. Mae cywirdeb y mesuriad wedi ei ddiffinio fel y nodwyd yn yr 'Arweiniad i Fynegi Ansicrwydd Mesuriadau' (ISO 1993)(**1**) neu mewn ISO 5725-1 'Manwl gywirdeb (gwiredd a thrachywiredd) dulliau a chanlyniadau

(**1**) Gellir prynu copïau o gyhoeddiadau'r Sefydliad Safonau Rhyngwladol oddi wrth Adran Farchnata'r Sefydliad Safonau Prydeinig ('BSI') naill ai dros y ffôn (0208 996 9001) neu drwy'r post o BSI, Standards House, 389 Chiswick High Road, London W4 4AL, http://www.bsi-global.com

mesuriad' (ISO 1994). Mae'r canrannau yn y tabl wedi'u rhoi ar gyfer mesuriadau unigol wedi'u cyfartaleddu, dros y cyfnod cyfrifo, gan y gwerthoedd terfyn, ar gyfer cyfwng hyder o 95% (bias + dwy waith yr amrywiad safonol). Dylai'r cywirdeb ar gyfer mesuriadau parhaus gael eu dehongli fel eu bod yn gymwys o gwmpas y gwerth terfyn priodol.

**3**. Mae'r cywirdeb ar gyfer modelu ac amcangyfrif gwrthrychol yn golygu'r uchafswm amrywiadau ar y lefelau crynodiadau a gyfrifir ac a fesurir, dros y cyfnod ar gyfer cyfrifo'r gwerth terfyn, heb gymryd i fewn i ystyriaeth amseriad digwyddiadau.

**4**. Nid yw'r gofynion ar gyfer lleiafswm y data a gipir a lleiafswm yr amser a gwmpesir yn cynnwys unrhyw data a gollir wrth i'r offer gael eu calibradu yn rheolaidd neu eu cynnal a'u cadw fel rhan o'r drefn

**5**. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ganiatáu i fesuriadau ar hap gael eu gwneud yn lle mesuriadau parhaus ar gyfer plwm, $PM_{2.5}$ a $PM_{10}$ trwy ddulliau y mae cywirdeb yn y cyfwng hyder o 95% mewn perthynas â monitro parhaus wedi ei ddangos i fod o fewn 10%. Mae'n rhaid i samplu ar hap gael ei ddosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn.

**Bensen a charbon monocsid**

**6**. Mae'r amcanion ansawdd data yn y tabl canlynol, ar gyfer ansicrwydd dulliau asesu a ganiateir, lleiafswm yr amser a gwmpesir a lleiafswm y data a gipir yn sgil mesur yn cael eu darparu fel canllawiau i raglenni sicrwydd ansawdd -

| | *Bensen* | *Carbon monocsid* |
|---|---|---|
| *Mesuriadau sefydlog* | | |
| Ansicrwydd | 25% | 15% |
| Lleiafswm y data a gipir | 90% | 90% |
| Lleiafswm yr amser a gwmpesir | 35% mewn safleoedd cefndir trefol a thrafnidiaeth (wedi eu dosbarthu dros y flwyddyn i fod yn gynrychioliadol o wahanol amodau ar gyfer hinsawdd a thrafnidiaeth); 90% mewn safleoedd diwydiannol | |
| *Mesuriadau dangosol* | | |
| Ansicrwydd<br>Lleiafswm y data a gipir | 30%<br>90% | 25%<br>90% |
| Lleiafswm yr amser a gwmpesir | 14% (mesuriad un diwrnod yr wythnos ar hap, wedi ei ddosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn, neu 8 wythnos wedi eu dosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn) | 14% (un mesuriad yr wythnos ar hap, wedi ei ddosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn, neu 8 wythnos wedi eu dosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn) |
| *Modelu* | | |
| Ansicrwydd: | | |
| Cyfartaleddau wyth awr | | 50% |
| Cyfartaleddau blynyddol | 50% | |
| *Amcangyfrif gwrthrychol* | | |
| Ansicrwydd | 100% | 75% |

**7**. Rhaid llunio ansicrwydd (ar gyfwng hyder o 95%) y dulliau asesu yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn 'Arweiniad i Fynegi Ansicrwydd Mesuriadau' (ISO 1993) neu'r fethodoleg yn ISO 5725:1994. Mae'r canrannau ar gyfer ansicrwydd yn y tabl uchod wedi'u rhoi ar gyfer mesuriadau unigol, wedi'u cyfartaleddu dros y cyfnod ar gyfer cyfrifo gwerthoedd terfyn, ar gyfer cyfwng hyder o 95%. Dylai'r ansicrwydd ar gyfer mesuriadau sefydlog gael ei ddehongli fel pe bai'n gymwysadwy o gwmpas y gwerth terfyn priodol.

**8**. Mae'r ansicrwydd ar gyfer modelu ac amcangyfrif gwrthrychol yn golygu'r uchafswm amrywiadau ar y lefelau crynodiadau a gyfrifir ac a fesurir, dros y cyfnod ar gyfer cyfrifo'r gwerth terfyn, heb gymryd i fewn i ystyriaeth amseriad y digwyddiadau.

**9**. Nid yw'r gofynion ar gyfer lleiafswm y data a gipir a lleiafswm yr amser a gwmpesir yn cynnwys unrhyw data a gollir wrth i'r offer gael eu calibradu yn rheolaidd neu eu cynnal a'u chadw fel rhan o'r drefn.

**10**. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ganiatáu i fesuriadau ar hap gael ei wneud yn lle mesuriadau parhaus ar gyfer bensen os yw'r ansicrwydd, gan gynnwys yr ansicrwydd o ganlyniad i samplu ar hap, yn cwrdd â'r amcan ansawdd 25%. Mae'n rhaid i samplu ar hap gael ei ddosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn.

## RHAN 2

Llygryddion Grŵp B, hydrocarbonau aromatig polysyclig a mercwri nwyol llwyr

**11**. Mae'r amcanion ansawdd data sydd wedi eu nodi yn y tabl a'r paragraffau isod wedi cael eu darparu fel canllawiau i raglenni sicrwydd ansawdd-

| | *Benso(a)pyren* | *Arsenig, cadmiwm a nicel* | *Hydrocarbonau aromatig polysyclig a mercwri nwyol llwyr* | *Dyddodiad llwyr* |
|---|---|---|---|---|
| *Ansicrwydd* | | | | |
| Mesuriadau sefydlog a dangosol | 50% | 40% | 50% | 70% |
| Modelu | 60% | 60% | 60% | 60% |
| *Lleiafswm y data a gipir* | 90% | 90% | 90% | 90% |
| *Lleiafswm yr amser a gwmpesir* | | | | |
| Mesuriadau sefydlog | 33% | 50% | | |
| Mesuriadau dangosol(1) | 14% | 14% | 14% | 33% |

(1) Mae mesuriadau dangosol yn fesuriadau sy'n cael eu perfformio'n llai rheolaidd ond sy'n cyflawni'r amcanion ansawdd data eraill.

**12**. Rhaid llunio ansicrwydd (a fynegir ar gyfwng hyder o 95 %) y dulliau a ddefnyddir i asesu crynodiadau aer amgylchynol yn unol â'r 'Arweiniad i Fynegi Ansicrwydd Mesuriadau' CEN (ENV 13005-1999)(**1**), y fethodoleg yn ISO 5725:1994, a'r arweiniad a roddir yn yr Adroddiad CEN, 'Ansawdd aer - Agweddiad at amcangyfrif ansicrwydd ar gyfer dulliau mesuriad cyfeiriadol aer amgylchynol' (CR 14377:2002E). Mae'r canrannau ar gyfer ansicrwydd yn y tabl uchod wedi'u rhoi ar gyfer mesuriadau unigol, wedi'u cyfartaleddu dros y cyfnod ar gyfer cyfrifo amseroedd samplu nodweddiadol, ar gyfwng hyder o 95 %. Dylai' ansicrwydd y mesuriadau gael ei ddehongli fel pe bai'n gymwysadwy o gwmpas y gwerth targed priodol. Rhaid i'r mesuriadau sefydlog a dangosol

(**1**) Cyhoeddiad y Pwyllgor Ewropeaidd ar Safoni ("CEN"), cyfeiriad CEN yw 36, Rue de Stassart, B-1050, Brwsel, Gwlad Belg http://www.cenorm.be

gael eu dosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn er mwyn osgoi gogwyddo canlyniadau.

**13**. Nid yw'r gofynion ar gyfer lleiafswm y data a gipir a lleiafswm yr amser a gwmpesir yn cynnwys unrhyw data a gollir wrth i'r offer gael eu calibreiddio yn rheolaidd neu wrth iddynt gael eu cynnal a'u cadw fel rhan o'r drefn. Rhaid cael samplu pedair awr ar hugain ar gyfer mesur benso(a)pyren a hydrocarbonau aromatig polysyclig eraill. Gyda gofal, gall samplau unigol a gymerwyd dros gyfnod o hyd at un mis gael eu cyfuno a'u dadansoddi fel sampl cyfansawdd, ar yr amod bod y dull yn sicrhau bod y samplau yn sefydlog ar gyfer y cyfnod hwnnw. Y tri cytras benso(b)fluoranthen, benso(j)fluoranthen, benzo(k)fluoranthen lle maent yn anodd eu cydrannu yn ddadansoddol. Mewn achosion o'r fath gellir eu cofnodi fel swm. Argymhellir bod samplu pedair awr ar hugain yn fuddiol hefyd ar gyfer mesur arsenig, cadmiwm a chrynodiadau nicel. Mae'n rhaid i'r samplu gael eu dosbarthu yn gyfartal dros ddiwrnodau'r wythnos a dros y flwyddyn. Ar gyfer mesur cyfraddau dyddodion, argymhellir cymryd samplau misol, neu wythnosol trwy gydol y flwyddyn.

**14**. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ganiatáu ar gyfer defnyddio samplu gwlyb yn unig yn lle samplu swmp os y gellir dangos i'w fodlonrwydd bod y gwahaniaeth rhyngddynt o fewn 10 %. Yn gyffredinol dylid nodi cyfraddau dyddodion mewn $\mu g/m^2$ y diwrnod.

**15**. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio lleiafswm maint amser islaw'r hyn a ddangosir yn y tabl, ond nid yn is na 14 % ar gyfer mesuriadau sefydlog a 6 % ar gyfer mesuriadau dangosol ar yr amod ei fod yn fodlon y gellir dangos y bydd y 95 % ansicrwydd ehangedig ar gyfer y cymedr blynyddol, a gyfrifwyd o'r amcanion ansawdd data yn y tabl yn unol ag ISO 11222:2002 - 'Penderfynu ar ansicrwydd cyfartaledd amser mesuriadau ansawdd aer' yn cael eu bodloni.

## RHAN 3

Osôn a nitrogen deuocsid a asesir mewn pwyntiau samplu osôn

**16**. Mae'r amcanion ansawdd data sydd wedi eu nodi yn y tabl a'r paragraffau isod, ar gyfer ansicrwydd a ganiateir o ddulliau asesu, lleiafswm yr amser a gwmpesir a lleiafswm y data a gipir yn sgil mesur, yn cael eu darparu fel canllawiau i raglenni sicrhau ansawdd-

| | *Ar gyfer osôn, NO a NO2 a asesir mewn pwyntiau samplu osôn* |
|---|---|
| *Mesur sefydlog parhaus* | |
| Ansicrwydd mesuriadau unigol | 15% |
| Lleiafswm y data a gipir | 90% yn ystod yr haf; 75% yn ystod y gaeaf |
| *Mesur dangosol* | |
| Ansicrwydd mesuriadau unigol | 30% |
